Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Rhydaman
# Lon yr Ysgol
# Rhydaman
# SA18 2NS

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhydaman yn ysgol gynradd Gymraeg ddynodedig, sydd wedi ei lleoli yn nhref Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.  Mae 293 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 30 oed meithrin amser llawn.  Mae ganddi 8 dosbarth.

Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae’r ysgol yn nodi bod gan tua 4% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2010.  Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2002.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Rhydaman yn 2016-2017 yw £3,114.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083.  Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman yn y 99ain safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn arbennig o dda ar draws yr ysgol gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio'u tafodiaith leol yn gwbl hyderus wrth drafod yn y Gymraeg
- gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o fedrau rhif, mesur, siâp a thrin data
- safonau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol
- canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf yn dda iawn ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- yr ysgol yn darparu ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion
- athrawon a chynorthwywyr dysgu yn rheoli ymddygiad yn fedrus, ac o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol
- yr ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
- perthynas amlwg o barch rhwng y disgyblion, staff ac oedolion eraill sy'n arwain at naws ofalgar a chynhwysol yn llwyddiannus

Fodd bynnag:

- er bod llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6, nid ydynt bob tro'n gwneud y cynnydd gorau posibl o'u mannau cychwyn, yn enwedig y rhai mwy abl
- nid yw gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol nac i wneud dewisiadau mewn perthynas â'u gwaith wedi datblygu'n ddigon cadarn
- nid yw'r cynlluniau yn nodi digon o gyfleoedd effeithiol, ar y cyfan, i ddisgyblion ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau llythrennedd a rhifedd ar y lefel briodol ar draws cwricwlwm
- mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith a gweithgareddau ailddrafftio diangen yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu ac i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth gadarn sydd wedi'i rhannu'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni, y gymuned a'r llywodraethwyr
- yr holl staff yn cefnogi'r pennaeth yn gymwys ac maent yn cydweithio'n agos fel tîm i wireddu'r weledigaeth
- cyfarfodydd uwch dîm rheoli a chyfarfodydd athrawon ar y cyfan yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella yn fwriadus
- llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio'n bwrpasol gydag arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu'n effeithiol
- prosesau rheoli perfformiad yn arwain at gyfleoedd hyfforddi gwerthfawr sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr drwy brosesau monitro wedi adnabod elfennau pwysig sydd angen eu gwella
- mae adroddiadau sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu yn aneffeithiol o ran rhoi darlun clir o safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon effeithiol wrth adnabod yr holl faterion sydd angen eu gwella, ac felly, nid yw'r cynllun gwella ysgol yn arf digon pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen
- mae'r llywodraethwyr yn orddibynnol ar y wybodaeth y maent yn ei derbyn ac nid ydynt wedi adnabod nifer o faterion sydd angen eu gwella o ran y safonau, y ddarpariaeth na'r arweinyddiaeth

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl strategol yr holl arweinwyr er mwyn gwella ansawdd prosesau hunanarfarnu a chywirdeb adroddiadau i adnabod yr holl gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A3 Cynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer datblygu medrau disgyblion

A4 Gwella ansawdd yr addysgu i gynnig digon o her i ddisgyblion ac i'w datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'u dysgu

A5 Sicrhau cywirdeb asesiadau o waith disgyblion

A6 Gwella gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu i alluogi disgyblion i wybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella cynnwys eu gwaith a'u medrau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Er bod llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6, nid ydynt bob tro'n gwneud y cynnydd gorau posibl o'u mannau cychwyn, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion o oedran ifanc yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth gynllunio taith i'r tegan rhaglenadwy.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn arbennig o dda ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa yn gywir. Maent yn defnyddio'u hiaith yn dda iawn wrth chwarae rôl, er enghraifft wrth greu bwletin tywydd. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn gadarn iawn yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod eu gwaith yn aeddfed ac yn defnyddio iaith ffurfiol gan ystyried y gynulleidfa. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u tafodiaith leol yn gwbl naturiol wrth drafod yn y Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant, er ar adegau nid yw'r llyfrau darllen yn cynnig digon o her i ychydig o ddisgyblion. Mae llawer yn trafod plot a chymeriadau llyfrau dosbarth yn frwdfrydig. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Mae disgyblion mwy abl yn trafod arddull gwahanol awduron yn llwyddiannus, gyda'r ychydig mwyaf abl yn cymharu nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol o'u harddulliau yn fedrus. Yn gyffredinol, mae llawer yn cymhwyso'u medrau darllen yn briodol wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr ac yn atalnodi'u gwaith yn briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o'r môr-leidr 'Barti Smarti' yn y dosbarth Derbyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn ystod addas o ffurfiau ysgrifennu. Wrth weithio o dan gyfarwyddyd staff, mae'r rhan fwyaf yn trefnu'u brawddegau'n synhwyrol gan ddefnyddio atalnodi priodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o atalnodi a sillafu yn ddigon cadarn wrth ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gymwys yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu darnau estynedig creadigol gan ddewis geirfa yn ofalus i greu effaith. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu i'r un lefel ag yn eu gwersi iaith wrth weithio ar draws y cwricwlwm mewn ychydig o feysydd dysgu. Enghraifft effeithiol o hyn yw ysgrifennu dyddiadur o safbwynt plentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar draws yr ysgol, yn gyffredinol, nid oes gan y mwyafrif o ddisgyblion ymwybyddiaeth ddigon cadarn o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu er mwyn eu galluogi i gymhwyso eu medrau ysgrifennu'n annibynnol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhif, mesur, siâp a thrin data rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio’u gwybodaeth rhif yn addas i ddatrys problemau gair syml. Mae’r rhan fwyaf yn mesur gwrthrychau yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol, er enghraifft wrth fesur hyd cysgodion mewn arbrawf gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth effeithiol o strategaethau rhif. Maent yn cyflwyno a dehongli ystod o ddata yn gadarn. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn cymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn hyderus, er enghraifft wrth gwblhau gweithgareddau mentergarwch. Mae hyn yn caniatáu iddynt gymhwyso’u dealltwriaeth o waith rhif yn llwyddiannus mewn sefyllfa bywyd go iawn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon cyson nac i’r lefel briodol.

O oedran ifanc iawn, mae safonau’r disgyblion wrth ddefnyddio technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio pecynnau arlunio yn llwyddiannus, er enghraifft i greu lluniau anifeiliaid. Gall y rhan fwyaf raglennu teganau neu ddelwedd sgrin yn llwyddiannus. Mae bron pob un yn gallu mewngofnodi i’r system gyfrifiadurol yn annibynnol ac yn lled hyderus.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn effeithiol, er enghraifft wrth greu tudalen flaen papur newydd ynglŷn â chymeriad o lyfr darllen. Mae llawer yn datblygu eu medrau i lunio a chanfod gwybodaeth o gronfeydd data yn llwyddiannus wrth wneud gwaith ar gantorion o Gymru. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio taenlen i gyfrifo cost adeiladu cysgodfan ac elw stondinau yn y Ffair Nadolig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig ac ar y deilliant uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol, yn gyffredinol, wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a’r lefelau uwch dros yr un cyfnod yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ymhob pwnc craidd. Fodd bynnag, ar adegau, mae asesiadau athrawon yn rhy hael ac nid ydynt bob tro’n adlewyrchu safonau disgyblion yn gywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae merched yn tueddu i berfformio’n well na’r bechgyn wrth gyrraedd y deilliant uwch mewn llythrennedd a rhifedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r bechgyn yn tueddu i berfformio’n well na’r merched ar y lefelau uwch ymhob pwnc craidd.

Mae nifer y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymariaethau o’u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

**Lles: Da**

Un o gryfderau’r ysgol yw’r parch gwirioneddol y mae bron pob disgybl yn ei ddangos tuag at eu cyfoedion, oedolion ac eraill. Maent yn ymddwyn yn arbennig o dda yn

ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae hyn yn arwain yn sylweddol at greu awyrgylch dysgu effeithiol. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gofidio. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn trafod beth sydd ei angen ar gyfer diet cytbwys yn llwyddiannus. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn manteisio ar glybiau chwaraeon sy'n hybu eu hiechyd a'u ffitrwydd yn effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn cael llwyddiant ar lefel genedlaethol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Maent yn awyddus i ddysgu ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, nid yw gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol nac i wneud dewisiadau mewn perthynas â'u gwaith wedi datblygu'n ddigon cadarn.

Mae gan yr ysgol ystod dda o weithgorau disgyblion sydd yn cynrychioli llais bron pob un disgybl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn chwarae rôl flaengar i wella'r ardal allanol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at y gymuned ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r gweithgor eco wedi creu fideo ar sut i gadw Cymru'n daclus. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei rannu'n genedlaethol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i rannu'u neges gydag ysgolion eraill.

Mae canran presenoldeb yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf yn dda iawn ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ateb gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn darparu ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau ar draws yr holl feysydd dysgu na phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i ymgorffori yng nghynlluniau'r ysgol. Er hyn, ar y cyfan, nid yw'r cynlluniau'n nodi digon o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau llythrennedd a rhifedd ar y lefel briodol ar draws cwricwlwm. O ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau er mwyn bodloni gofynion y fframwaith yn llawn. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu buddiol ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn gynyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol ynghyd â chyswllt Cymru a gwledydd ar draws y byd. Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn bwrpasol trwy drefnu ymweliadau

preswyl a thrwy wahodd nifer helaeth o ymwelwyr o'r gymuned i'r ysgol, er enghraifft cyn-löwr lleol i adrodd ei hanes. Cynhelir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd sydd yn cynnig profiadau chwaraeon a diwylliannol cyfoethog i'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi cael llwyddiant cenedlaethol diweddar ar y cae rygbi ac yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a gofalu am yr amgylchfyd. Trwy brosiectau ailgylchu, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am bwysigrwydd ail-ddefnyddio nwyddau ac offer i arbed yr amgylchedd. Mae gweithgareddau elusennol ac astudiaethau sy'n ymwneud â Masnach Deg yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth gadarn y disgyblion o faterion dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu profiadau blaenorol. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r tasgau bob tro'n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl. Ar draws yr ysgol, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith a gweithgareddau ailddrafftio diangen yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu ac i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae bron pob aelod o staff yn fodel iaith da a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar iaith lafar rhan fwyaf y disgyblion. Mae pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad yn effeithiol iawn ac yn mwynhau perthynas waith gynhyrchiol gyda'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n agos er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae bron pob un yn marcio gwaith gan roi sylwadau cadarnhaol i ddisgyblion ar eu llwyddiannau ynghyd ag ychydig o dargedau ar gyfer gwelliant. Serch hynny, nid yw'r sylwadau hyn yn aml yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut y gallant wella cynnwys eu gwaith na'u medrau. Ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn fuddiol i adborth yr athrawon. Mae defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn rheolaidd ac yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid yw arferion eraill, fel hunanasesu ac asesu cyfoedion, wedi datblygu i'r un graddau.

Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir bob tro, yn enwedig ar fynediad i'r ysgol ac ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Caiff data ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn darparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plant yn ogystal â thargedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn addysgu'r disgyblion am bwysigrwydd cadw'n heini a diogelwch personol yn llwyddiannus. Fe wneir hyn yn fuddiol drwy themâu dosbarth, cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol uwchradd, gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol a'r siop ffrwythau.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwasanaethau boreol a chyfnodau i fyfyrio sy'n amlwg ym mywyd yr ysgol. Mae'r rhain yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol bron pob un disgybl yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu gwerthoedd gwerthfawr fel parch a thegwch.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cyson dda gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion lleferydd, y gwasanaeth tân, yr heddlu a'r nyrs ysgol. Mae'r asiantaethau a'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion ac yn cyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion lles yn dda.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr, gan gynnwys y defnydd o gynlluniau asesu cynnar yn effeithiol ar fynediad i'r ysgol. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau â ffocws clir. Mae'r athrawon, dan arweiniad y cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, yn gwerthuso'r rhain yn rheolaidd ac yn eu hadolygu'n bwrpasol deirgwaith y flwyddyn gyda rhieni. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth lleferydd a llythrennedd priodol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion ym mhob dosbarth. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Cymreig a theuluol cryf yn bodoli yn yr ysgol, sy'n annog disgyblion i fod yn gyfeillgar tuag at ei gilydd. Mae perthynas amlwg o barch rhwng y disgyblion, staff ac oedolion eraill. Mae hyn yn arwain at naws ofalgar a chynhwysol lwyddiannus. Mae gan yr ysgol bolisïau a dogfennau statudol priodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith y staff a'r disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sydd o ansawdd da er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Er yn gyfyng ar adegau, gwneir defnydd effeithiol o bob rhan o'r adeilad a'r ardaloedd allanol i greu amgylcheddau dysgu ysgogol.

Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol yn dathlu gwaith y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn ennyn parch a balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae gan yr ysgol ardaloedd dysgu pwrpasol tu allan, gan gynnwys llwyfan, gardd ac offer dringo. Mae'r ardaloedd hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu, chwarae a chymdeithasu yn effeithiol. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn

cynllunio gweithgareddau buddiol er mwyn datblygu medrau disgyblion yn yr awyr agored. Mae safonau glanweithdra’n uchel ac mae’r adeilad a’r safle yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw’n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn yn seiliedig ar geisio sicrhau y ‘dechreuad gorau posib i blant ifanc mewn bywyd drwy addysg ardderchog’. Mae wedi rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni, y gymuned a’r llywodraethwyr. Mae’r holl staff yn cefnogi’r pennaeth yn gymwys ac maent yn cydweithio’n agos fel tîm i wireddu’r weledigaeth.

Ar y cyfan, mae cyfarfodydd uwch dîm rheoli a chyfarfodydd athrawon yn canolbwyntio ar flaenoriaethau gwella yn fwriadus. Mae hyn yn cyfrannu’n bwrpasol at ddatblygu dealltwriaeth y staff o’u cyfrifoldebau a’u cyfraniad wrth ddatblygu’r blaenoriaethau hyn. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac maent yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae gan y staff ddisgrifiadau swydd sy’n cysylltu’n bwrpasol â’u cyfrifoldebau. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw’r ffordd y mae arweinwyr wedi datblygu TGCh ar draws yr ysgol. Trwy awdit pwrpasol a hyfforddiant penodol, maent yn sicrhau darpariaeth TGCh o safon uchel ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod elfennau eraill o safonau, y ddarpariaeth a’r monitro yr un mor effeithiol. Er enghraifft, nid ydynt wedi adnabod bod gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio’n annibynnol nac i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio’n ddigonol.

Ar y cyfan, mae’r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn briodol. Mae’r trefniadau paratoi ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol yn datblygu’n dda ac mae’r ysgol yn gweithredu’n llwyddiannus i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion bregus. Fodd bynnag, er bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei ymgorffori yng nghynlluniau’r ysgol, nid yw arweinwyr yn sicrhau yn ddigon trwyadl bod disgyblion yn datblygu’r ystod lawn o fedrau i’r safon briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio’n bwrpasol gyda’r uwch dîm rheoli i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Yn gyffredinol, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gadarn am berfformiad a systemau’r ysgol ynghyd â dealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau â’r ysgol, maent yn datblygu’r gallu i herio’r ysgol yn gymwys. Fodd bynnag, maent yn orddibynnol ar y wybodaeth y maent yn ei derbyn ac nid ydynt wedi adnabod nifer o faterion sydd angen eu gwella o ran y safonau, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae elfennau pwysig o hunanarfarnu'r ysgol sydd angen eu gwella. Er bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol i fwydo adroddiadau nac i ddangos eu bod yn adnabod yr ysgol yn ddigon trylwyr.

Mae'r prosesau hunanarfarnu yn defnyddio ystod berthnasol o dystiolaeth sy'n rhoi cyfleoedd addas i arweinwyr ac athrawon ddadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith, yn ogystal ag arsylwi ar wersi ac ystyried barn rhieni a disgyblion. Trwy'r ystod hon o weithgareddau, maent yn adnabod llawer o gryfderau'r ysgol. Lle mae prosesau wedi bod yn fwy effeithiol, maent wedi arwain at welliannau, er enghraifft o ran datblygu medrau TGCh disgyblion.

Ar y cyfan, mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses hunanarfarnu yn aneffeithiol, gan nad ydynt yn rhoi darlun clir o'r safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Maent yn or-gyffredinol ac nid ydynt yn ddigon miniog i arfarnu elfennau o waith yr ysgol yn drylwyr. Er enghraifft, nid ydynt yn rhoi darlun clir o gyflawniad disgyblion, nac os yw'r ddarpariaeth a'r addysgu yn ddigon effeithiol ar gyfer bodloni anghenion disgyblion o bob gallu.

Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon manwl a miniog. Mae'r adroddiad yn cynnwys llawer o osodiadau am ragoriaeth heb roi sail i'r arfarniadau. Nid yw'r gosodiadau cadarnhaol hyn bob tro yn gywir, er enghraifft y farn am ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwrciwlwm. Er bod yr ysgol yn nodi materion sydd angen sylw i'r dyfodol yn glir ar ddiwedd pob adran, nid yw'n adnabod yr holl faterion pwysig sydd angen eu datblygu yn ddigon cyflawn.

Mae cyswllt priodol rhwng canfyddiadau'r ysgol o ran y materion sydd angen eu gwella a blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol eleni. Mae ansawdd y cynllun gwella yn briodol ac yn cynnwys elfennau clir o atebolrwydd. Mae'r targedau meintiol o gymorth i'r llywodraethwyr er mwyn dal yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Fodd bynnag, gan nad yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon effeithiol wrth adnabod yr holl faterion sydd angen eu gwella, nid yw'r cynllun gwella ysgol yn arf digon pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gref â rhieni. Mae'r gymdeithas rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn codi symiau sylweddol o arian yn rheolaidd ar gyfer darparu adnoddau a chyfarpar, er enghraifft ar gyfer yr ardal tu allan ac ymweliadau addysgol a phreswyl. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i rieni gyfrannu eu barn am yr ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau yn effeithiol, er enghraifft drwy wella dulliau o gyfathrebu.

Mae’r cysylltiadau cadarn â chymdeithasau a sefydliadau lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol iawn. Mae disgyblion yn ymweld yn gyson â chymdeithasau amrywiol a chartrefi’r henoed i ddiddanu’r preswylwyr. Mae hyn, ynghyd â’r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i’r ysgol, yn cryfhau’r cyswllt rhwng yr ysgol a’r gymuned leol yn llwyddiannus ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cyfrifoldebau cymunedol. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos â busnesau lleol, sy’n cyfrannu’n fuddiol at ddealltwriaeth disgyblion o’r byd busnes.

Mae cysylltiadau llwyddiannus â’r lleoliadau cyn ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn yr ysgol. Mae’r cydweithio agos gyda’r ysgol uwchradd yn cynnig profiadau amrywiol i hwyluso trosglwyddiad esmwyth i’r disgyblion hŷn.

Mae’r ysgol yn gweithio’n bwrpasol o fewn partneriaethau dysgu. Mae rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu’r ddarpariaeth barhaus yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen. Yn ychwanegol, mae’r rhwydweithio gyda’r ddwy ysgol uwchradd leol yn datblygu medrau TGCh, dylunio a thechnoleg ac ymarfer corff yn dda trwy gynnig cyfleoedd pwrpasol i gyfoethogi profiadau disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n hael gydag athrawon a chynorthwywyr cymwysedig i ddarparu cwricwlwm sy’n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr yn defnyddio’r cynorthwywyr dysgu yn bwrpasol. Mae’r cynorthwywyr yn cydweithio’n effeithiol â’r athrawon gan wneud cyfraniad gwerthfawr o fewn y dosbarthiadau.

Mae trefniadau ar gyfer anwytho athrawon newydd gymhwyso yn ogystal â threfniadau cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol. Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain at gyfleoedd hyfforddi gwerthfawr sy’n seiliedig ar flaenoriaethau gwella’r ysgol. Enghraifft o hyn yw’r hyfforddiant TGCh mewnol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Defnyddia’r arweinwyr gryfderau athrawon a chynorthwywyr yn fedrus i gyfoethogi profiadau’r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw’r defnydd o arbenigedd yr athrawes gerdd ran amser ac arbenigedd dawnsio disgo a gymnasteg cynorthwywyr. Mae hyn wedi arwain at ennill cystadlaethau cenedlaethol.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli’n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o’r cwricwlwm.

Gwna arweinwyr ddefnydd priodol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn gwella lles disgyblion bregus yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd priodol.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd a gofalus. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692179 - YSGOL GYMRAEG RHYDAMAN**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 276 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.5 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 36 | 32 | 39 | 27 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 32 | 39 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 52.8 | 56.3 | 59.0 | 48.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 32 | 39 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 58.3 | 56.3 | 61.5 | 51.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 32 | 39 | 27 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 88.9 | 87.5 | 92.3 | 85.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692179 - YSGOL GYMRAEG RHYDAMAN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 276 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 29 | 30 | 31 | 30 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 31 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 72.4 | 63.3 | 67.7 | 56.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 31 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 58.6 | 53.3 | 61.3 | 56.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 31 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 69.0 | 56.7 | 67.7 | 56.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 31 | 30 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 96.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 58.6 | 60.0 | 77.4 | 60.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 97 | 97<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 97 | 97<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 97 | 97<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 97 | 96<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 97 | 97<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 97 | 97<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 97 | 97<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 97 | 97<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 97 | 96<br>99%<br>90% | 1<br>1%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 97 | 97<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 97 | 96<br>99%<br>77% | 1<br>1%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 96<br>99%<br>84% | 1<br>1%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 69 | 52 | 14 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 75% | 20% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 68 | 50 | 18 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 69 | 55 | 14 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 67 | 50 | 14 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 75% | 21% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 69 | 56 | 10 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 81% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 69 | 53 | 14 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 77% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 68 | 53 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 78% | 21% | 1% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 69 | 48 | 17 | 2 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 70% | 25% | 3% | 3% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 69 | 51 | 11 | 4 | 2 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 74% | 16% | 6% | 3% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 68 | 48 | 18 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 71% | 26% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 69 | 50 | 18 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 0% | 1% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 69 | 43 | 19 | 3 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 62% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 68 | 49 | 16 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 72% | 24% | 4% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 69 | 49<br>71% | 15<br>22% | 3<br>4% | 2<br>3% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 69 | 44<br>64% | 19<br>28% | 2<br>3% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 69 | 53<br>77% | 15<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 69 | 47<br>68% | 14<br>20% | 1<br>1% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 69 | 49<br>71% | 9<br>13% | 5<br>7% | 6<br>9% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 69 | 52<br>75% | 13<br>19% | 1<br>1% | 1<br>1% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| Mr Hywel Jones | Arolygydd Tîm |
| Ms Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Ms Delyth Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Geraint Davies (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.